

## Apêl Brys Ysbytai Shillong a Jowai

Daeth gwybodaeth i law gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ystod y dyddiau diwethaf yn apelio arnom i gynorthwyo ein brodyr a'n chwiorydd yng Ngogledd-ddwyrain yr India:

“Yn ystod yr wythnosau diwethaf clywsom am y sefyllfa argyfyngus sydd yn yr India ac effeithiau cynyddol Covid-19 yn y wlad, gan gynnwys talaith Meghalaya. Mae'r ddwy ysbyty sydd dan ofal yr Eglwys Bresbyteraidd yno, sef Ysbyty H. Gordon Roberts yn Shillong ac Ysbyty Norman Tunnel yn Jowai, dan bwysau aruthrol wrth geisio ymateb i'r argyfwng. Mae'r ddwy ysbyty angen cymorth, ond oherwydd bod ardal Jowai yn fwy gwledig na Shillong, mae'r pwysau mwyaf ar hyn o bryd ar waith Ysbyty H. Gordon Roberts sy'n orlawn o gleifion, a'r staff yn gweithio oriau maith dan amgylchiadau dyrys iawn. Mae prinder ocsigen yn peri loes i'r meddygon a'r nyrsys yn y ddwy ysbyty, ac mae galw am ocsigen yn eu tair Canolfan Iechyd Gwledig sydd dan ofal yr Ysbyty. Ein gobaith yw y gallwn ni yma yng Nghymru gynorthwyo. Ein bwriad yw prynu peiriannau i greu ocsigen (Oxygen Concentrator) ar gyfer Canolfannau Gwledig Ysbyty H. Gordon Roberts, ac ar yr un pryd, creu adnodd i leoli'r prif beiriant yn yr ysbyty yn Shillong. Bwriadwn hefyd brynu peiriannau anadlu (ventilators) ar gyfer Ysbyty Norman Tunnel. Amcangyfrif y gost, gan gynnwys cludiant, yw £30,000.

Fel y gallwch dybio, mae brys, ac felly apêl am gyfnod byr yw'r apêl hon, o'r 18fed o Fai i'r 6ed o Fehefin. Erfyriwn arnoch i gyfrannu yn ôl eich gallu i helpu ein brodyr a'n chwiorydd yn ardal Shillong a Jowai ym Mryniau Casia. Gall ein cymorth olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i gleifion yn y ddwy ysbyty.

Mae'r mwyafrif ohonoch yn ymwybodol o'r berthynas agos ac annwyl sydd rhwng ein Cyfundeb ag eglwysi Bryniau Casia, sydd yn Nhalaithe Meghalaya yng Ngogledd-ddwyrain yr India. Y Parchedig Thomas Jones o Beriw yn Sir Drefaldwyn sefydlodd yr Eglwys Bresbyteraidd yno dros ganrif a hanner yn ôl, eglwys sydd erbyn heddiw yn eang a'i chenhadaeth yn destun edmygedd. Yn ogystal ag eglwysi lleol mae ysbytai, ysgolion, colegau, canolfannau cynghori a llawer mwy yn rhan ohoni. Ein braint yw cyfrannu yn y modd yma ynghyd â chynnal ein brodyr a'n chwiorydd yng Ngogledd-ddwyrain yr India trwy weddi.”

Os yw'n bosib i chi gyfrannu, gallwch wneud hynny trwy naill ai anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' (cofiwch nodi 'Po160-Covid India 2021' ar gefn y siec, os gwelwch yn dda), neu e-bostiwch Mair i gael y manylion banc i allu talu ar-lein. Gwerthfawrogi derbyn eich cyfraniadau **erbyn Mehefin 5ed**, os gwelwch yn dda. Rydym yn ymwybodol eich bod wedi, a'ch bod yn parhau i gefnogi nifer o elusennau, ond os ydych mewn sefyllfa i gefnogi'r apêl arbennig hon, fe “all ein cymorth olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i gleifion yn yr ysbytai hyn”. Diolch am eich cefnogaeth unwaith eto.

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 23 Mai 2021

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Beth yw'r arwyddion ein bod yn mynd yn hŷn?! Yn ddiweddar mae yna ddau beth sydd wedi gwneud i mi fod yn arbennig o ymwybodol o dreigl amser. Y cyntaf yw'r ffaith fod angen i mi adnewyddu fy ngherdyn trwydded yrru. Yn ôl y rheolau rhaid gwneud hyn bob deng mlynedd, ond mae'n teimlo fel mai dim ond blwyddyn neu ddwy sydd wedi pasio ers y tro diwethaf! Yr ail beth oedd cael gwybod bod yr unig ddeintydd yr wyf wedi bod o dan ei ofal yn bwriadu ymddeol. Nid yw'r un o'r rhain yn syndod – mae nifer o ddogfennau swyddogol sy'n cynnwys dyddiad adnewyddu ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymddeol o'u gwaith (ar ryw bwynt)! Ond mae'r pethau bychain hyn yn dangos mor gyfnewidiol yw'r byd yr ydym yn byw ynddo. Prin yw'r elfennau mewn unrhyw agwedd o'n bywyd sy'n aros yn eu hunfan am gyfnod hir o amser, ac mae'r flwyddyn a mwy diwethaf wedi dangos hynny'n glir.

Eto, wrth i ni droi at y Beibl cawn ein hannog i feddwl am ein byd ac am ein bywydau mewn ffordd benodol. Er nad yw'r Beibl yn cuddio mor boenus ac anwadal y mae bywyd yn gallu bod mewn byd syrthiedig, nid yw'n ein gadael mewn anobaith. Oherwydd mae gweld ein hunain a'n profiadau yng ngoleuni'r hyn a ddywed Gair Duw yn gallu bod yn ysgytwol ac yn gysur enfawr. Ystyriwch am funud y ffordd y mae Paul yn esbonio effeithiau atgyfodiad Iesu Grist yn 1 Corinthiaid 15. Yn gyntaf mae'n nodi mor allweddol yw'r Atgyfodiad i'r ffydd Gristnogol: ‘os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd.’ (1 Corinthiaid 15:17) Yna, tua diwedd y bennod, gwelwn y geiriau syfrdanol hyn: ‘Rhaid i ni, sydd â chorff sy'n mynd i bydru, wisgo corff fydd byth yn pydru. Byddwn ni sy'n feidrol yn cael gwisgo anfarwoldeb!’ (1 Corinthiaid 15:53 beibl.net)

Er bod pawb ohonom yn wynebu gwahanol effeithiau poenus byw yn y byd sydd ohoni, diolchwn i Dduw nad felly y bydd hi am byth. I'r Cristion, mae atgyfodiad Iesu yn golygu gobaith cadarn hyd yn oed yng nghanol salwch, ofnau ac ansicrwydd. Byddwn yn cael gwisgo anfarwoldeb oherwydd bod ein cynrychiolydd, Iesu, wedi concro marwolaeth a phechod ar ein rhan. A gan fod marwolaeth wedi methu dal gafaal ar Iesu, mae'n fyw heddiw i'n bugeilio, ein cysuro a'n harwain trwy ei Ysbryd Glân.

Am fod fy Iesu'n fyw,  
byw hefyd fydd ei saint;  
er gorfod dioddef poen a briw,  
mawr yw eu braint: (Caneuon Ffydd 762)

## Dychwelyd i'r Capel

Fel yr eglurwyd yn y rhifyn diwethaf, byddwn yn ail-ddechrau addoli mewn adeilad nos Sul, Mai 23ain **am 6:00 yr hwyr**. Byddwn yn defnyddio'r capel yn Llansannan (gan fod mwy o le i ni allu cadw'r pellter angenrheidiol a hefyd oherwydd bod modd darlledu'r oedfa'n fyw ar y we oddi yno) ar gyfer cynnal Oedfa'r Fro ond mae croeso i bawb i ymuno. Gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, **rhaidd i chi fod wedi cofrestru ymlaen llaw** er mwyn ein galluogi i lunio cynllun eistedd.

Bydd angen i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau fydd mewn lle i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd naill ai'n dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo tu allan a thu mewn i'r Capel, os gwelwch yn dda.

Os na allwch ymuno â ni yn y capel, bydd Oedfa'r Fro hefyd yn cael ei darlledu'n fyw ar YouTube **am 6:00 yr hwyr** ac ar gael i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. Gallwch hefyd trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen y wefan i wrando ar yr oedfaon eraill a ddarlledwyd ar-lein dros y flwyddyn ddiwethaf.)

## Cyhoeddiadau'r Fro

Sul – 23<sup>ain</sup>

- **Oedfa deuluol (Llanefydd)** o dan ofal Rhodri ar y Cae Chwarae am 9:30 (os bydd y tywydd yn caniatáu).
- **Oedfa'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 6:00 yr hwyr**. Mae croeso i bawb ond bydd angen i chi fod wedi cofrestru ymlaen llaw gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
- **Oedfa'r Fro YN FYW ar YouTube am 6:00 yr hwyr** – sylwch ar yr amser gwahanol i'r arfer. (I ymuno â ni, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)

Llun – 24<sup>ain</sup>

- **Merched Gyfarfu â Iesu â'u neges i ni heddiw** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Mercher – 26<sup>ain</sup>

- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Sul – 30<sup>ain</sup>

- **Oedfa'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. Cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Mai 27<sup>ain</sup> i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
  - **Oedfa'r Fro YN FYW ar YouTube am 6:00 yr hwyr**. (I ymuno â ni, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)
- Mercher – 2<sup>il</sup>
- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- Sul – 6<sup>ed</sup>
- **Oedfa'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00 yr hwyr. Edrychwn ymlaen hefyd i gael cwmni Isaias Grandis sy'n wreiddiol o Batagonia ond sydd bellach yn weinidog gyda'r Bedyddwyr ar dair eglwys yn ardal Llanelli ers 2016, ar ôl dysgu Cymraeg ac ennill cystadleuaeth Dysgwyr y Flwyddyn 2012. Cofiwch mai nifer gyfyngedig all fod yn bresennol, felly, cysylltwch â Mair **erbyn nos lau, Mehefin 3<sup>ydd</sup> i gofrestru**, os gwelwch yn dda. (Gweler yr adran 'Dychwelyd i'r Capel' am fwy o fanylion.)
  - **Oedfa'r Fro YN FYW ar YouTube am 6:00 yr hwyr**. (I ymuno â ni, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen.)

## Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Eurgain Pierce (Llanefydd) sydd wedi bod yn yr ysbyty dros yr wythnos ddiwethaf ond sy'n gobeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf. Cofiwch hefyd am Hywel Williams (Llansannan) yn dilyn ei lawdriniaeth – da deall ei fod yntau adre erbyn hyn. Mae Edna Evans (Llanfair) yn parhau i gael gofal yn yr ysbyty ac anfonwn ein cofion ati hithau. Gweddiwn y bydd y tri, ynghyd ag eraill o'n plith sydd heb fod yn 100% y dyddiau hyn, yn profi gofal a chariad Duw drostyn nhw ac y byddan nhw'n cryfhau ychydig bach mwy bob dydd. Dymunwn yn dda hefyd i Dilys Vaughan (Saron) sydd bellach wedi ymgartrefu yng nghartref gofal Dolwen yn Ninbych. Cyflwynwn hefyd bawb sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar yn dyner i ofal Duw.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (3<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda.